



Safonau Gofynnol i Goetswyr yn Rhwydwaith Coetsio Cymru

Coetsio ffurfiol yw darparu perthynas 1 i 1 dan gontract sy'n canolbwyntio ar agenda'r rhai sy'n cael eu coetsio, a defnyddio sgiliau coetsio i helpu'r rhai sy'n cael eu coetsio i ddod o hyd i'w canlyniadau a'u hatebion eu hunain.

A chithau'n goetsiwr ffurfiol yn y Rhwydwaith Coetsio, byddwch yn:

1. Cael caniatâd eich rheolwr llinell i ddod yn aelod o Rhwydwaith Coetsio Cymru a chaniatâd i weithio fel coetsiwr.
2. Trefnu, drwy gyfeirio at yswiriant atebolrwydd i'r cyhoedd eich sefydliad neu yswiriant cyfatebol, fod gennych yswiriant pan fyddwch chi'n coetsio ar ran Rhwydwaith Coetsio Cymru. Mae hyn ar yr amod fod unrhyw goetsio er budd sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus Cymru yn unig, ac nad oes ffi'n cael ei chodi Dylai pob coetsiwr gynnwys eu hymrwymiad i goetsio yn ffurfiol fel rhan o'u disgrifiad swydd a/neu gynnwys hynny yn eu cynllun perfformiad.

Dilyn cod moeseg cydnabyddedig ar gyfer coetsio e.e. [Y Gymdeithas Goetsio \(AOC\)](#) neu'r Cyngor Mentora a Choetsio Ewropeaidd (EMCC). Yr unigolyn fydd yn gyfrifol am danysgrifio fel aelod o gyrrff proffesiynol, ac nid Academi Wales.

3. Os ydych chi'n newydd i'r rhwydwaith, dylech feddu ar neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster/achrediad coetsio priodol sef ILM5 neu gyfatebol.
4. Os ydych chi'n goetsiwr sy'n ymarfer heb gymhwyster ar hyn o bryd, rhaid i chi fodloni eich Arweinydd Coetsio lleol eich bod chi wedi cyrraedd safon ddigonol o hyfedredd.*
5. Ymgymryd ag o leiaf 12 awr o goetsio dan gontract ffurfiol bob blwyddyn.
6. Cymryd rhan mewn sesiynau goruchwyllo coetsio drwy un neu ragor o'r ffurfiau a ganlyn y cytunwyd arnynt (o leiaf 2 sesiwn y flwyddyn, gan gynyddu yn unol â gweithgarwch):
 - Goruchwyliaeth 1 i 1 gyda goruchwylwr coetsio cymwys
 - Goruchwyliaeth grŵp gyda goruchwylwr coetsio cymwys
 - Ymarfer myfyriol mewn grŵp gyda grŵp cefnogi cyfoedion o goetswyr
 - Sesiwn ymarfer myfyriol 1 i 1 gyda choetsiwr cymwys

7. Ymgymryd ag o leiaf 10 awr o goetsio Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) bob blwyddyn, er enghraifft:

- Mynychu cynadleddau neu weithdai
- Mynychu cyfarfodydd rhwydwaith coetsio lleol
- Darllen llyfrau, cylchgronau ar-lein neu flogiau

8. Cynnal cofnodion cywir i gynnwys:

- Ceisiadau am goetsio
- Pob gweithgarwch coetsio ar gontract ffurfiol
- Gweithgarwch DPP
- Contractau a gwerthusiadau coetsio
- Goruchwyliaeth

Bydd gofyn i chi gyflwyno tystiolaeth o goetsio, goruchwyliaeth a DPP i'ch Arweinydd Coetsio yn ôl y gofyn (e.e. bob chwarter).

9. Rhaid i gofnodion cleientiaid gael eu casglu, eu storio a'u gwaredu yn unol â pholisi rheoli cofnodion sefydliad cyflogi'r coetsiwr, Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

10. Rhaid i goetswyr sicrhau bod unrhyw ddiagnosteg, offer, seicometreg neu offerynnau a ddefnyddir i gefnogi perthynas coetsio yn cydymffurfio â GDPR a bod ganddynt gynllun Brexit heb gytundeb yn ei le.

11. Gofyn am adborth ysgrifenedig gan bob un sy'n cael ei goetsio, i werthuso effaith eich coetsio ac i wella eich perfformiad coetsio eich hun.

12. Cynnal proffil coetsio cyfredol ar wefan Academi Wales er mwyn llywio agenda coetsio Cymru Gyfan. Bydd eich proffil yn weladwy ar y wefan fel ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer unigolion i'w coetsio o bosibl. Os nad ydych chi ar gael i goetsio, dylech guddio eich proffil rhag canlyniadau chwilio coetsio.

13. Bydd coetswyr y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a choetswyr y trydydd sector sydd ar gael drwy Rwydwaith Coetsio Academi Wales yn cynnig gwasanaethau heb dâl.

*Gall hyfedredd gael ei benderfynu ar sail tystiolaeth o hyfforddiant neu ddatblygiad priodol a/neu brofiad sylweddol o goetsio. Mae'n rhaid i goetswyr fod yn ymarfer yn unol â'r safonau gofynnol hyn. Gall coetswyr gael eu cefnogi a'u hannog i ddilyn cymhwyster fel bo'n briodol.

Sylwer: Y set safonol hon yw'r gofyniad lleiaf i goetswyr ar Rwydwaith Coetsio Academi Wales. Efallai y bydd gan eich sefydliad ofynion ychwanegol, y gellir eu darparu gan eich Arweinydd Coetsio.